**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

## TROSGLWYDDO PERCHNOGAETH ASEDAU'R DIMENSIWN NEWYDD

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw edrych am gytundeb i drosglwyddo Asedau'r Dimensiwn Newydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ddyddiad i'w gytuno yn y dyfodol.

## Cefndir

2 Roedd yr ymosodiadau terfysgol yn yr Unol Daleithiau ar 11eg Medi 2001 wedi achosi i'r Llywodraeth ailasesu gallu'r DU i ymdrin â diweddiadau o'r raddfa a maint hynny. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad fod angen newid llwyr yng ngalluoedd y DU, felly dyma sefydlu Rhaglen y Dimensiwn Newydd.

3 Mae Rhaglen y Dimensiwn Newydd wedi gwella galluoedd y Gwasanaethau Tân ac Achub i ymateb i ddigwyddiadau sy'n aflonyddu ar y wlad ar raddfa fawr, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i oblygiadau terfysgol. Ystyriwyd y gallai senarios tebygol gynnwys deunyddiau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear, adeiladau sydd wedi disgyn neu'n ansefydlog a'r angen i symud symiau mawr o ddŵr.

4 O safbwynt y Llywodraeth, mae Rhaglen y Dimensiwn Newydd wedi gweld y cyflwyniad o asedau arbenigol o ansawdd uchel sydd wedi eu gwneud yn arbennig, fel cerbydau ac offer, a hyfforddi diffoddwr tân i ddefnyddio'r asedau hynny o dan amodau argyfwng mewn unrhyw fan yn y DU.

5 Mae'r asedau sydd wedi cael eu darparu gan y Llywodraeth a'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru yn cynnwys dwy Uned Ymateb i Ddigwyddiad a Phwmp Cyfaint Uchel yn ogystal â'r offer stoc ac ategol sy'n mynd gyda'r cerbydau yma. Mae gwerth yr asedau yma yng Ngogledd Cymru dros £1m.

6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu Rhaglen y Dimensiwn Newydd gydag oddeutu £3m y flwyddyn i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig. Mae'r arian yma'n sicrhau fod pob agwedd o gyflwyno'r galluoedd yn cael ei gynnal o hyd.

7 Mewn partneriaeth gyda, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, fe sefydlodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig dîm bychan o reolwyr i gyflawni'r dyletswyddau dydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cerbydau, rheoli cyfleusterau, hyfforddi diffoddwyr tân a chynnal y rhaglen cymhwysedd a chostau criwio penodol cysylltiedig Rhaglen y Dimensiwn Newydd.

**Gwybodaeth**

8 Fe gymrodd Llywodraeth Cynulliad Cymru berchnogaeth o holl asedau'r Dimensiwn Newydd oedd wedi eu lleoli yng Nghymru gan Lywodraeth y DU ar 1af Ebrill 2010. Mae'r ddwy lywodraeth wedi eu hymrwymo i drosglwyddo asedau'r Dimensiwn Newydd i'r Awdurdodau Tân ac Achub priodol yn Lloegr a Chymru.

9 Mae trosglwyddo'r asedau i berchnogaeth yr Awdurdod Tân ac Achub yn golygu fod risg ag eiddo'r offer yn cael ei basio i'r Awdurdod ar amser y trosglwyddiad. Mae copi o'r cytundeb trosglwyddo drafft wedi ei atodi er gwybodaeth (Atodiad 1). Mae Adran 6 o'r cytundeb trosglwyddo drafft yn gosod ymrwymiadau'r Awdurdod.

10 Mae Swyddogion o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig wedi bod yn cydweithio am beth amser i sicrhau eu bod yn trafod amodau trosglwyddo holl asedau'r Dimensiwn Newydd yng Nghymru i sicrhau cynaladwyedd tymor hir nid yn unig yr asedau eu hunain, ond gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i griwio'r asedau gyda gweithredwyr medrus a chymwys. Gostwng y risgiau potensial i'r Awdurdodau Tân ac Achub wrth drosglwyddo oedd prif ffocws y trafodaethau.

11 Yn dilyn y trafodaethau yma, mae'r cytundeb drafft yn cynnwys darpariaeth yn nhermau trosglwyddo i'r Awdurdodau yng Nghymru os fydd ariannu yn cael ei leihau neu'n darfod yn y dyfodol, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd perchnogaeth yr Asedau yn eu hôl (Atodiad 1 adran 8).

12 Mae darpariaeth ar gyfer mynediad i Reolaeth Galluoedd Tymor Hir wedi ei gynnwys yn y cytundeb trosglwyddo, sy'n darparu ar gyfer cynnal ac adnewyddu'r cerbydau ac offer yn unol gyda chyngor y gwneuthurwyr dros y 16 flwyddyn nesaf. Mae'r cytundeb yma wedi cael ei drafod trwy Firebuy yn Lloegr gyda darpariaeth i'r Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig gael mynediad i'r cytundeb. Unwaith eto, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgymryd i ariannu'r agwedd hon o'r Rhaglen yn llawn drwy grant benodol dros y cytundeb 16 mlynedd.

13 Trwy dderbyn perchnogaeth o'r asedau bydd angen i'r Awdurdod:-
- Arwyddo Cytundeb Trosglwyddo Asedau.
- Arwyddo'r Cytundeb Rheoli Galluoedd Tymor Hir.
- Gynnal yr Asedau fel eu bod yn ateb y diben ac ar gael i'w defnyddio yn y DU.
- Sicrhau fod personél gweithredol yn gymwys i ddefnyddio'r offer.

14 Oherwydd ymrwymiad parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu'r Rhaglen Dimensiwn Newydd yn y tymor hir, mae'r risg i'r Awdurdodau Tân ac Achub o drosglwyddo perchnogaeth wedi ei ostwng yn arwyddocaol.

15 Aeth adroddiad am y mater hwn i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar 27ain Medi 2010. Derbyniodd yr Awdurdod y trosglwyddiad mewn egwyddor ar ddyddiad ac amser i'w bennu. Bydd y mater yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Argymhelliad

16 Argymhellir fod Aelodau yn
(i) nodi cynnwys ar adroddiad;
(ii) cytuno i drosglwyddo asedau'r Dimensiwn Newydd a'r anghenion a restrir ym mharagraff 13.

**Gweler yr adroddiad Saesneg am gopi o Atodiad 1 os gwelwch yn dda**